

**PARC GRID
GWYRDDACH
ABERTAWE**

**ARDDANGOSFA
GYHOEDDUS**

Chwefror 2023



Fferm Wynt Baillie, Thurso, 21 tyrbin, 110m ar y pwynt uchaf.

<u>Croeso</u>	<u>4</u>
<u>Ynglŷn â Pharciau Grid Gwyrddach</u>	<u>8</u>
<u>Pam Mae Angen Parciau Grid Gwyrddach?</u>	<u>10</u>
<u>Ynglŷn â Pharc Grid Gwyrddach Abertawe</u>	<u>12</u>
<u>Buddion Cymunedol</u>	<u>16</u>
<u>Camau Nesaf</u>	<u>18</u>

Croeso

**Mae ein tîm yma i drafod ein cynlluniau,
i glywed eich barn ac i amlinellu camau
nesaf y Datblygiad Arfaethedig.**

Ynglŷn â Statkraft


- Gweithredu yn y DU ers 2006
- Swyddfeydd ledled y DU
- Piblinell ddatblygu'n cynnwys gwasanaethau sefydlogi gwynt, solar a'r grid
- Dosbarthu £2 filiwn a mwy i gymunedau gerllaw prosiectau ynni adnewyddadwy gweithredol
- Cynhyrchydd ynni adnewyddadwy mwyaf Ewrop
- Cyfleustod sy'n eiddo i'r wladwriaeth gyda'i wreiddiau yn ynni dŵr Norwy dros 125 o flynyddoedd yn ôl



20 Fferm solar Brydeinig ar raddfa cyfleustodau

Statkraft yn y DU

- Swyddfeydd yn Llundain, Glasgow a Chaerdydd
- Portffolio gweithredol yn cynnwys un Parc Grid Gwyrddach, chwe fferm wynt ac un gwaith dŵr
- Darparu gwasanaethau sefydlogrwydd i'r grid ar gyfer y Grid Cenedlaethol yn Moray a Lerpwl ac mae prosiectau ar y gweill yn Ne Orllewin yr Alban
- Ymestyn yn ddiweddar i ddatblygu solar a phwyntiau gwefru cerbydau trydan
- Gwerth 700MW a mwy o brosiectau adnewyddadwy yn cael eu datblygu
- 10 Parc Grid Gwyrddach yn cael eu datblygut



Ynglŷn â Pharciau Grid Gwyrddach

Casgliad o adeiladau yw Parciau Grid Gwyrddach, sy'n gartref i dechnoleg dim carbon sy'n sefydlogi'r grid, sy'n golygu y gellir trosglwyddo mwy o ynni adnewyddadwy drwy'r rhwydwaith. Nid ffermydd gwynt na ffermydd solar ydyn nhw, mae'r adeiladau'n debyg i unedau storio neu gynwysyddion llongau.

Darperir hyn drwy un neu'r ddau o'r technolegau arloesol canlynol.



Parc Grid Gwyrddach yn Keith

Cydadferwr Cydamseredig

Mae peiriannau mawr sydd â chwyloadau mewnol yn darparu sefydlogrwydd i'r grid heb allyrru unrhyw garbon deuocsid – gan ddatgarboneiddio'r grid ac arbed arian i ddefnyddwyr.

.....

Cewch ragor o wybodaeth yn:

www.statkraft.co.uk/grid-services

.....



BESS yn Kilathmoy Iwerddon

System Storio Ynni Batri (BESS)

Mae batris yn dal ynni a'i storio i'w ddefnyddio'n ddiweddarach. Mae trawsnewidyddion sy'n ffurfio'r grid wedi'u cyfuno â batris yn aros yn y modd 'ffurfio grid' bob amser sy'n golygu eu bod, yn eu hanfod, yn gwrthsefyll newidiadau mewn foltedd ac amledd ar y grid trydan. Dyma ffordd arloesol arall y gallwn ni ddarparu sefydlogrwydd i'r grid.

Pam mae angen Parciau Grid Gwyrddach?

Mae Parciau Grid Gwyrddach yn brosiectau arloesol sy'n helpu i gyflawni dim allyriadau carbon.

- Wrth i ni symud tuag at fyd digarbon, mae angen i ni gadw'r rhwydwaith pŵer yn sefydlog wrth i unedau nwy a glo gau.
- Mae'r Grid Cenedlaethol wedi gorfod oedi ynni adnewyddadwy a rhedeg gorsafoedd pŵer sy'n llosgi nwy – hyd yn oed pan fo digon o ynni adnewyddadwy ar gael i ateb y galw.
- Mae'r Grid Cenedlaethol yn talu i danio gweithfeydd sy'n llosgi tanwydd ffosil ac yn talu taliadau cyfyngu – mae hyn yn gost i'r amgylchedd ac i'r defnyddiwr.
- Mae Parciau Grid Gwyrddach yn dileu'r angen hwn drwy ddarparu sefydlogrwydd digarbon fel y gallwn ddefnyddio cymaint o ynni adnewyddadwy â phosibl.



“Weithiau mae wedi bod yn angenrheidiol cau ffermydd gwynt a thanio gweithfeydd pŵer sy’n llosgi nwy - bydd prosiectau fel ein Parciau Grid Gwyrddach yn golygu y bydd hyn yn perthyn i’r gorffennol.”

*Guy Nicholson –
Pennaeth Integreiddio Grid,
Statkraft UK.*

**HYD AT
£128
MILIWN**

Wedi’i arbed (amcangyfrifir gan NGENSO) ar draws cyfnod y contract ar gyfer Pathfinder Cam 1. Arbed arian i ddefnyddwyr; cyrraedd targedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

(NGESO: Gweithredwr Systemau Trydan y Grid Cenedlaethol)




**MWY O YNNI
ADNEWYDDADWY
AR Y RHWYDWAITH
TRYDAN**














**2 BARC GRID
GWYRDDACH
ledled y DU**



Ynglŷn â Pharc Grid Gwyrddach Abertawe



ALLWEDD

 ADEILAD DIGOLLEDWR CYDAMSEROL (7m o uchder)	 GENERADURON WRTH GEFN (3.5 o uchder)
 FFIN Y SAFLE	 TŶ CYFATHREBIADAU (3.5 o uchder)
 FFENS (3.4m o uchder)	 FFORDD FYNEDIAD
 SWYDDFEYDD (3.5m o uchder)	 IARD CERBYDAU TRWM
 STORFEYDD (2.59 o uchder)	 TIRLUNIO A PHLANNU
 OERYDDION (2.5 o uchder)	 ARDAL RHEOLI CYNEFINOEDD
	 CLWYD



Am ragor o wybodaeth ac i roi eich sylwadau ewch i'n gwefan: www.statkraft.co.uk/swansea

Ynglŷn â Pharc Grid Gwyrddach Abertawe

Mae Abertawe yn lleoliad safle gwych
ar gyfer Parc Grid Gwyrddach oherwydd:

- Nododd Gweithredwr System Drydan y Grid Cenedlaethol (NGESO) **ardal sydd ag anghenion sefydlogrwydd a dyfarnwyd contract i Statkraft** i ddarparu'r gwasanaeth hwn
- Mae wrth ymyl is-orsaf bresennol Gogledd Abertawe sy'n golygu bod y **cysylltiad cebl yn fyr ac yn tarfu llai**
- **Effeithiau isel** ar lifogydd, treftadaeth ddiwylliannol ac ecoleg
- **Seilwaith ffyrdd presennol** ar gyfer mynediad
- Mae Abertawe yn safle ardderchog i gyfrannu at **uchelgeisiau'r DU o gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050**
- Mae'r safle **wedi cael caniatâd cynllunio eisoes** ar gyfer Parc Grid Gwyrddach a bydd y cynnig diwygiedig hwn yn caniatáu i **Statkraft ddiwallu anghenion NGESO yn llawn**

EIN HYMRWYMIAD

Cynyddu gwerth
bioamrywiaeth
y safle o
leiaf 10%



Os rhoddir y caniatâd cynllunio diwygiedig i Barc Grid Gwyrddach Abertawe, rydym yn amcangyfrif y bydd y prosiect yn weithredol yn 2025

“Rwy’n croesawu’n fawr y buddion a ddaw yn sgil y prosiect i’r gymuned leol, ac rwy’n croesawu’r fenter budd cymunedol rydych chi wedi’i chrybwyll hefyd. Bydd y prosiect a’r buddsoddiad sylweddol yn yr economi leol yn dod â buddion i gadwyni cyflenwi lleol gan helpu i sicrhau bod y rhanbarth yn flaenllaw hefyd yn ein taith barhaus i wneud ynni adnewyddadwy yn rhan annatod o’n taith i sero net.”

Michael Matheson, Ysgrifennydd y Cabinet dros Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth yn lansiad Parc Grid Gwyrddach Keith, Mawrth 2022.

Budd Cymunedol

Rydyn ni'n edrych ymlaen at ymgysylltu â'r cymunedau i ddarganfod gwahanol ffyrdd y gallwn ddod â manteision cadarnhaol i'r ardal leol.

Mae trigolion gerllaw ein prosiectau'n gofyn i ni'n aml pa fuddion all ddeillio ohonyn nhw. Ni yw'r cyntaf i gynnig arian budd cymunedol ar gyfer prosiectau sefydlogi'r grid.



“Rydyn ni'n eithriadol o ddiolchgar i Statkraft am y nawdd parhaus i'n Cyfres Llwybrau'r Gaeaf sy'n rhan bwysig o'n calendr.

“Mae'r nawdd yn ein helpu i hyrwyddo rhedeg fel diddordeb iach a chymdeithasol ar gyfer pob math o oedranau a lefelau ar hyd a lled Caithness a Sutherland.”

*Donna Stewart, Is-gadeirydd
North Highland Harriers*



“Mae Fferm Wynt Windy Rig yn contract gwerthfawr arall i GTR. Un busnes yn unig o blith sawl busnes lleol ydym ni sy'n elwa'n uniongyrchol o'r datblygiadau ffermydd gwynt niferus yn yr ardal hon. Mae'n rhaid bod hyn yn beth da i fusnesau lleol ac i'r economi leol yn enwedig yn ystod y pandemig presennol.”

Tanya Russell, Cyfarwyddwr, GTR Contracts Ltd

Cronfa Budd Cymunedol

Rydyn ni wedi ymrwymo i sefydlu Cronfa Budd Cymunedol o £20,000 y flwyddyn. Ein budd cymunedol yw'r **cyntaf o'i fath** ar gyfer prosiectau grid.

Gwelliannau Bioamrywiaeth

Mae Statkraft yn bwriadu mynd ati i wella'r amgylchedd o amgylch ein prosiectau drwy blannu dolydd blodau gwyllt, gwrychoedd a choed. Rydyn ni am wella cynefinoedd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau lle bo angen.

Cadwyn Gyflenwi Leol

Rydyn ni'n cydweithio â grwpiau busnes lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o adeiladu a gweithredu ein prosiectau.

Buddsoddwyd £1.6 miliwn a mwy yn y gadwyn gyflenwi leol yn ein Parc Grid Gwyrddach yn Keith, Moray. Ewch i'n gwefan i weld sut i gofrestru diddordeb.



Y Camau Nesaf

Mae eich sylwadau a'ch adborth yn bwysig i ni.

Bydd cyfle i wneud sylwadau ffurfiol ar y cais pan fydd cynnig yn cael ei gyflwyno. Bydd yr holl wybodaeth ar gael i'w gweld ar wefan yr awdurdod caniatáu ac ar wefan ein prosiect adeg ei gyflwyno.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r gymuned leol a hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. Cysylltwch â ni gyda'ch cwestiynau, eich sylwadau neu i danysgrifio ar gyfer yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect.



Arddangosfa gyhoeddus Statkraft ym Mharc Grid Gwyrddach Keith

**Hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf
i chi wrth i ni fwrw ymlaen â'n cynlluniau:**



**A fydddech cystal â dychwelyd
y cerdyn ateb rhad ac am ddim
a ddarperir.**



UKProjects@statkraft.com



**[www.statkraft.co.uk/
swansea](http://www.statkraft.co.uk/swansea)**



**Ffoniwch linell gymorth
y prosiect:
0800 772 0668**

Statkraft UK

Tŷ Regus
Heol Falcon
Caerdydd CF10 4RU

Rhagor o wybodaeth
am Barc Grid Gwryddach
Abertawe
www.statkraft.co.uk/swansea

www.statkraft.co.uk

Ffôn: 0800 772 0668

Mae Statkraft yn bartner balch i SolarAid, gan helpu i ddarparu mynediad at ynni glân i'r rhai mwyaf agored i niwed ledled Affrica.



**BETH PETAECH
CHI'N GALLU HELPU
I DRAWSNEWID
BYWYD A MYND I'R
AFAEL Â'R NEWID YN
YR HINSAWDD DRWY
BWYSO BOTWM
YN UNIG?**

Mae bron i 600 miliwn o bobl ledled Affrica Is-Sahara yn byw heb drydan ac yn tanio ffynonellau goleuo gwenwynig sy'n llygru fel canhwyllau paraffin a lampau cerosin. Mae SolarAid yn creu byd lle mae gan bawb fynediad at oleuadau solar glân a diogel. Ymunwch â ni.

Ewch i solar-aid.org i gael gwybod mwy neu i gyfrannu:

